Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adran 7 Atodiad: Ceisiadau Cynllunio – Rhestr o Ofynion Dilysu

Llawlyfr
Rheoli
Datblygu

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51664, ISBN digidol 978-1-83715-686-3

**Canllaw Rheoli Datblygu**

## Atodiad Adran 7

# Ceisiadau Cynllunio – Rhestr o Ofynion Dilysu

## Cynnwys


| Adran | | Isadran |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | |
| 2 | Rhestr o ofynion dilysu ar gyfer ceisiadau a wneir ar gyfer Deddfau Cynllunio a mathau eraill o gydsyniadau tebyg | |
| 3 | Ffurf a chynnwys cynlluniau | |


## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r atodiad hwn yn darparu canllaw ar y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio dilys a mathau eraill o gydsyniadau tebyg.

## 2.0 Rhestr o'r gofynion dilysu ar gyfer ceisiadau a wneir mewn cysylltiad â'r Deddfau Cynllunio a chaniatadau tebyg eraill

| | |
|---|---|
| Rhestr 1 | Cais cynllunio llawn ar gyfer datblygiad gan ddeiliaid tŷ |
| Rhestr 2 | Cais cynllunio llawn neu amlinellol ar gyfer datblygiad bach a mawr (ac eithrio ceisiadau gan ddeiliaid tŷ) |
| Rhestr 3 | Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl |
| Rhestr 4 | Tynnu neu amrywio amod ar ôl cael caniatâd cynllunio (adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) |
| Rhestr 5 | Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd, gwaith neu weithgarwch presennol yn cynnwys y rheini sy'n mynd yn groes i amod cynllunio |
| Rhestr 6 | Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd neu ddatblygiad arfaethedig |
| Rhestr 7 | Caniatâd Hysbyseb |

| | |
|---|---|
| Rhestr 8 | Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer addasu, estyn neu ddymchwel adeilad rhestredig |
| Rhestr 9 | Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel mewn ardal gadwraeth |
| Rhestr 10 | Ceisiadau am ganiatâd o dan Orchymyn cadw coed |
| Rhestr 11 | Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw – Rhan 6 (Estyniadau ac adeiladau amaethyddol) a Rhan 7 (gweithrediadau ac adeiladau coedwigaeth) o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) |
| Rhestr 12 | Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw – Rhan 24 (Datblygiad gan weithredwyr codau cyfathrebu electronig) o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) |
| Rhestr 13 | Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw – Rhan 31 (Cynnig i ddymchwel adeiladau) o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) |

## RHESTR 1

### Cais Cynllunio Llawn am Ddatblygiad gan Ddeiliaid Tŷ

(Ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad gan ddeiliaid tŷ drwy gyfrwng Rhan 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990).

Mae datblygiad gan ddeiliaid tŷ yn cynnwys gwneud gwaith (gan gynnwys adeiladu adeilad) o fewn cwrtil yr annedd bresennol, at ddibenion sy'n gysylltiedig â mwynhad o'r annedd drwy hynny, neu godi neu adeiladu gatiau, ffensys, waliau neu ddulliau eraill o osod ffin ar hyd terfyn cwrtil yr annedd bresennol.

Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell.

**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:**

### 1. Ffurflen gais safonol

(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi)

Cwestiynau ar y Ffurflen Gais Safonol

- Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd
- Enw a chyfeiriad yr asiant
- Disgrifiad o'r Gwaith Arfaethedig
- Manylion Cyfeiriad y Safle
- Mynediad, Ffyrdd a Hawliau Tramwy ar gyfer Cerddwyr a Cherbydau
- Cyngor Cyn-Ymgeisio
- Coed a Gwrychoedd
- Parcio
- Aelod/Gweithiwr yr awdurdod

| | |
|---|---|
| | - Deunyddiau<br>- Datganiad<br>- Trefniadau ar gyfer Ymweliad Safle<br><br>Dogfennau ychwanegol lle mae'r datblygiad arfaethedig yn bodloni'r meini prawf y croes-gyfeirir atynt yn y Ffurflen Gais Safonol:<br>Arolwg ac adroddiad bioamrywiaeth<br><br>Gofynion Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPWO):<br>- Tystysgrif Perchnogaeth<br>- Tystysgrif Daliadau Amaethyddol |
| **2. Planiau a gwybodaeth berthnasol**<br>(Oni chânt eu cyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | - Plan o'r lleoliad<br>- Planiau a lluniadau eraill neu wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddisgrifio pwnc y cais.<br>- Rhaid llunio planiau/lluniadau i raddfa glir ac, yn achos planiau, rhaid dangos cyfeiriad y gogledd. |
| **3. Ffi** | |
| | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 |

| | |
|---|---|
| **RHESTR 2** | |
| **Cais Cynllunio Llawn neu Amlinellol ar gyfer Datblygiad Bach a Mawr (ac eithrio Ceisiadau gan Ddeiliaid Tŷ)**<br>(Ceisiadau am ganiatâd i ddatblygu drwy gyfrwng Rhan 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)<br><br>Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell.<br><br>**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:** | |
| **1. Ffurflen gais safonol**<br>(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | Cwestiynau ar y Ffurflen Gais Safonol:<br>- Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd<br>- Enw a chyfeiriad yr asiant<br>- Disgrifiad o'r Gwaith Arfaethedig<br>- Manylion Cyfeiriad y Safle<br>- Cyngor Cyn-ymgeisio |

| | |
|---|---|
| | - Mynediad, Ffyrdd a Hawliau Tramwy ar gyfer Cerddwyr a Cherbydau<br>- Casglu a storio gwastraff<br>- Ymgynghori â chymdogion a'r gymuned<br>- Aelod/Gweithiwr yr awdurdod<br>- Deunyddiau<br>- Parcio Cerbydau<br>- Carthion<br>- Asesu'r Perygl o Lifogydd<br>- Gwarchod Bioamrywiaeth a Chadwraeth Ddaearegol<br>- Defnydd presennol<br>- Coed a gwrychoedd<br>- Elifion masnach<br>- Unedau preswyl (yn cynnwys addasiadau)<br>- Pob math o ddatblygiad: arwynebedd llawr dibreswyl<br>- Cyflogaeth<br>- Oriau agor<br>- Arwynebedd y safle<br>- Peirianwaith a phrosesau diwydiannol neu fasnachol<br>- Sylweddau peryglus<br>- Datganiad<br>- Trefniadau ar gyfer Ymweliad Safle<br><br>Dogfennau ychwanegol lle mae'r datblygiad arfaethedig yn bodloni'r meini prawf y croes-gyfeirir atynt gan y Ffurflen Gais Safonol:<br>- Arolwg ac Adroddiad Bioamrywiaeth<br>- Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd<br>- Asesiad Risg Cloddio am Lo<br>- Asesiad Sŵn<br>- Asesiad Effaith Manwerthu<br>- Gwerthusiad Anheddau Mentrau Gwledig<br>- Asesiad Trafnidiaeth<br>- Arolwg Coed<br><br>Gofynion DMPWO:<br>- Tystysgrif Perchnogaeth<br>- Tystysgrif Daliadau Amaethyddol<br>- Adroddiad ymgynghori cyn cyflwyno cais (datblygiad mawr arfaethedig yn unig (Gweler paragraff 6.4.36 o'r Llawlyfr)<br><br>Parheir i wneud ceisiadau am ddatblygiad sy'n cynnwys mwyngloddio neu ddefnyddio'r tir ar gyfer dyddodion gwaith mwynau ar ffurflen a ddarperir gan yr awdurdod cynllunio lleol a rhaid cynnwys y manylion a bennir neu a gyfeirir atynt ar y ffurflen honno. |
| **2. Planiau a gwybodaeth berthnasol**<br>(Oni chânt eu cyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | - Plan o'r lleoliad.<br>- Planiau a lluniadau eraill neu wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddisgrifio pwnc y cais.<br>- Rhaid llunio planiau/lluniadau i raddfa glir ac, yn achos planiau, rhaid |

| | |
|---|---|
| | dangos cyfeiriad y gogledd.<br>- Datganiad Dylunio a Mynediad (cyfeirier at erthygl 7 y DMPWO).<br>- Datganiad Amgylcheddol (cyfeirier at Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017).<br>- Y Comisiwn Rhyngwladol dros Amddiffyn rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys adeiladu neu osod antena at ddiben gweithredu rhwydwaith gyfathrebu electronig - cyfeirier at erthygl 9 y DMPWO).<br><br>Gallai cais am ganiatâd cynllunio amlinellol hefyd ofyn am y canlynol:<br>- Os yw cynllun y datblygiad yn fater a gadwyd yn ôl, rhaid i'r cais nodi lleoliad bras yr adeiladau, y llwybrau a'r mannau agored yn y datblygiad arfaethedig.<br>- Os yw'r maint yn fater a gadwyd yn ôl, rhaid i'r cais nodi'r terfyn uchaf ac isaf ar gyfer uchder, hyd a lled pob adeilad yn y datblygiad arfaethedig.<br>- Os yw'r mynediad yn fater a gadwyd yn ôl, rhaid i'r cais nodi'r ardal neu'r ardaloedd lle mae pwyntiau mynediad i'r datblygiad arfaethedig wedi eu lleoli. |
| **3. Ffi** | |
| | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 |
| **4. Gofynion dilysu lleol** | |
| | Ar gyfer ceisiadau cynllunio sylweddol, yn ogystal â'r gofynion a nodir yn y Ffurflen Gais Safonol, gall yr ACLl fabwysiadau 'gofynion dilysu lleol' (gweler paragraff 7.2.43 yn y Llawlyfr)<br><br>Caiff 'datblygiad mawr' ei ddiffinio fel datblygiad sy'n cynnwys unrhyw un neu fwy o'r canlynol:<br>a) cloddio neu gaffael mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gwaith mwynau<br>b) datblygu gwastraff<br>c) darparu tai annedd lle mae<br>i) nifer y tai annedd a ddarperir yn 10 neu'n fwy<br>ii) bydd y datblygiad ar safle gydag arwynebedd sy'n fwy na 0.5 hectar ac ni wyddys a yw'r datblygiad yn disgyn o fewn cwmpas paragraff (c)(i)<br>d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae maint y llawr a gaiff ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu'n fwy, neu<br>e) datblygiad ar safle gydag arwynebedd sy'n 1 hectar neu'n fwy. |

## RHESTR 3

## Cymeradwyo Materion a Gadwyd yn ôl

(Ceisiadau am gymeradwyaeth o faterion a gadwyd yn ôl drwy gyfrwng Erthygl 4 y DMPWO)

Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell

**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:**

### 1. Ffurflen gais safonol

(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi)

Cwestiynau ar y Ffurflen Gais Safonol:

- Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd
- Enw a chyfeiriad yr asiant
- Manylion Cyfeiriad y Safle
- Disgrifiad o'r Datblygiad
- Cyngor Cyn-ymgeisio
- Ymgynghori â chymdogion a'r gymuned
- Datganiad gan Aelod/Gweithiwr yr awdurdod
- Trefniadau ar gyfer ymweliadau safle
- Datganiad

### 2. Planiau a gwybodaeth berthnasol

(Oni chânt eu cyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi)

- Planiau a lluniadau neu wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn delio â'r materion a gadwyd yn ôl yn y caniatâd cynllunio amlinellol. Rhaid llunio'r rhain i raddfa glir ac, yn achos cynlluniau, rhaid dangos cyfeiriad y gogledd.

- Datganiad Amgylcheddol (cyfeirier at Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017).

### 3. Ffi

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015

## RHESTR 4

**Tynnu neu Amrywio Amod ar ôl Cael Caniatâd Cynllunio**
(Ceisiadau i dynnu neu amrywio amod drwy gyfrwng adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)

Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell

**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:**

**1. Ffurflen gais safonol**
(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi)

Cwestiynau ar y Ffurflen Gais Safonol:
- Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd
- Enw a chyfeiriad yr asiant
- Manylion Cyfeiriad y Safle
- Cyngor Cyn-Ymgeisio
- Disgrifiad o'r Cynnig
- Amodau - Tynnu
- Ymweliad â'r Safle
- Datganiad

Dogfennau ychwanegol lle mae'r datblygiad arfaethedig yn bodloni'r meini prawf y croes-gyfeirir atynt gan y Ffurflen Gais Safonol:
- Arolwg ac Adroddiad Bioamrywiaeth
- Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd
- Asesiad Risg Cloddio am Lo
- Asesiad Sŵn
- Asesiad Effaith Manwerthu
- Gwerthusiad Anheddau Mentrau Gwledig
- Asesiad Trafnidiaeth
- Arolwg Coed

Gofynion DMPWO:
- Tystysgrif Perchnogaeth
- Tystysgrif Daliadau Amaethyddol

**2. Gwybodaeth berthnasol**
(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi)

- Datganiad Dylunio a Mynediad (cyfeirier at erthygl 7 y DMPWO).

- Y Comisiwn Rhyngwladol dros Amddiffyn rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys adeiladu neu osod antena at ddiben gweithredu rhwydwaith gyfathrebu electronig - cyfeirier at erthygl 9 y DMPWO).

- Datganiad Amgylcheddol (cyfeirier at Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref

| | |
|---|---|
| | (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017. |
| **3. Ffi** | |
| | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 |
| **4. Gofynion dilysu lleol** | |
| | Ar gyfer ceisiadau cynllunio sylweddol, yn ogystal â'r gofynion a nodir yn y Ffurflen Gais Safonol, gall yr ACLl fabwysiadau 'gofynion dilysu lleol' (gweler paragraff 7.2.43 yn y Llawlyfr)<br><br>Caiff 'datblygiad mawr' ei ddiffinio fel datblygiad sy'n cynnwys unrhyw un neu fwy o'r canlynol:<br>a) cloddio neu gaffael mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gwaith mwynau<br>b) datblygu gwastraff<br>c) darparu tai annedd lle mae<br>    a. nifer y tai annedd a ddarperir yn 10 neu'n fwy<br>    b. bydd y datblygiad ar safle gydag arwynebedd sy'n fwy na 0.5 hectar ac ni wyddys a yw'r datblygiad yn disgyn o fewn cwmpas paragraff (c)(i)<br>d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae maint y llawr a gaiff ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu'n fwy, neu<br>e) datblygiad ar safle gydag arwynebedd sy'n 1 hectar neu'n fwy. |

| | |
|---|---|
| **RHESTR 5** | |
| **Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer Defnydd, Gwaith neu Weithgarwch Presennol yn cynnwys y rheini sy'n Mynd yn Groes i Amod Cynllunio**<br>(Ceisiadau am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon drwy gyfrwng adran 88 ac 89 o Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023)<br><br>Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell<br><br>**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:** | |
| **1. Ffurflen gais safonol**<br>(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | **GwybodaethOfynnolargyferCaisDilys**<br><br>Cwestiynau ar y Ffurflen Gais Safonol:<br>- Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd<br>- Enw a chyfeiriad yr asiant<br>- Manylion Cyfeiriad y Safle<br>- Cyngor Cyn-Ymgeisio |

| | |
|---|---|
| | - Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon - Budd yn y tir<br>- Aelod/Gweithiwr yr awdurdod<br>- Disgrifiad o'r Defnydd, y Gweithgarwch neu'r Gwaith Adeiladu<br>- Disgrifiad o'r defnydd, y gweithgarwch neu'r gwaith adeiladu presennol<br>- Y Rhesymau dros Ymgeisio am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon<br>- Gwybodaeth i gefnogi Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon<br>- Ymweliad â'r Safle<br>- Datganiad<br><br>Gofynion DMPWO:<br>• Tystiolaeth sy'n dilysu'r wybodaeth yn y cais fel y gellir ei darparu. |
| **2. Planiau a gwybodaeth berthnasol**<br>(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | - Plan o'r lleoliad a luniwyd i raddfa glir ac sy'n dangos cyfeiriad y gogledd.<br>- Os yw cais yn pennu mwy nag un defnydd, gweithgarwch neu fater arall, rhaid i'r plan sydd ynghlwm wrth y cais nodi pa ddefnydd a wneir o'r rhannau gwahanol o dir. |
| **3. Ffi** | |
| | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 |

| | |
|---|---|
| **RHESTR 6** | |
| **Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig**<br>(Ceisiadau am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon drwy gyfrwng adran 192 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)<br><br>Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell<br><br>**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:** | |
| **1. Ffurflen gais safonol**<br>(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | Cwestiynau ar y Ffurflen Gais Safonol:<br>- Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd<br>- Enw a chyfeiriad yr asiant<br>- Manylion Cyfeiriad y Safle<br>- Cyngor Cyn-Ymgeisio<br>- Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon - Budd yn y tir<br>- Aelod/Gweithiwr yr awdurdod<br>- Y Rhesymau dros Ymgeisio<br>- Disgrifiad o'r cynnig |

| | |
|---|---|
| | - Ymweliad â'r Safle<br>- Datganiad<br><br>Gofynion DMPWO:<br>- Tystiolaeth sy'n dilysu'r wybodaeth yn y cais fel y gellir ei darparu. |
| **2. Planiau a gwybodaeth berthnasol**<br>(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | - Plan o'r lleoliad a luniwyd i raddfa glir ac sy'n dangos cyfeiriad y gogledd.<br><br>- Os yw cais yn pennu mwy nag un defnydd, gweithgarwch neu fater arall, rhaid i'r plan sydd ynghlwm wrth y cais nodi pa ddefnydd a wneir o'r rhannau gwahanol o dir. |
| **3. Ffi** | |
| | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 |

| | |
|---|---|
| **RHESTR 7** | |
| **Caniatâd Hysbyseb**<br>(Ceisiadau am Gydsyniad Datganedig gyfrwng rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 (fel y'u diwygiwyd))<br><br>Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell<br><br>**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:** | |
| **1. Ffurflen gais safonol**<br>(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | Cwestiynau ar y Ffurflen Gais Safonol:<br>- Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd<br>- Enw a chyfeiriad yr asiant<br>- Manylion Cyfeiriad y Safle<br>- Cyngor Cyn-Ymgeisio<br>- Ymgynghori â chymdogion a'r gymuned<br>- Aelod/Gweithiwr yr awdurdod<br>- Disgrifiad o'r Hysbyseb Arfaethedig<br>- Arddangos yr Hysbyseb<br>- Cyfnod yr Hysbyseb<br>- Budd yn y tir<br>- Ymweliad â'r Safle<br>- Datganiad |

| | |
|---|---|
| **2. Planiau a gwybodaeth berthnasol**<br>(Oni chânt eu cyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | - Plan sy'n nodi lleoliad y safle drwy gyfeirio at o leiaf dwy ffordd a enwir a safle arfaethedig yr hysbyseb. Bydd wedi'i lunio i raddfa glir gan ddangos cyfeiriad y gogledd. |
| **3. Ffi** | |
| | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 |

## RHESTR 8

**Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer Addasu, Estyn neu Ddymchwel Adeilad Rhestredig**

(Ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig drwy gyfrwng adrannau 88 a 89 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023)

Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell

**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:**

**1. Ffurflen gais safonol**

(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi)

Cwestiynau ar y Ffurflen Gais Safonol:

- Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd
- Enw a chyfeiriad yr asiant
- Disgrifiad o'r gwaith arfaethedig
- Manylion cyfeiriad y safle
- Cynigion cysylltiedig
- Cyngor cyn-ymgeisio
- Ymgynghori â chymdogion a'r gymuned
- Aelod/gweithiwr yr awdurdod
- Deunyddiau
- Dymchwel
- Addasiadau i adeilad rhestredig
- Gradd yr adeilad rhestredig
- Tystysgrif nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhestru adeilad
- Imiwnedd rhag rhestru
- Datganiad
- Ymweliad â'r safle

Gofyniad y Rheoliadau Adeilad Rhestredig ac Ardal Gadwraeth:

- Tystysgrif Perchnogaeth

| | |
|---|---|
| | |
| **2. Planiau a gwybodaeth berthnasol**<br>(Oni chânt eu cyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | - Planiau, lluniadau neu wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r gwaith yn y cais.<br><br>- Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth (cyfeirier at reoliad 4 o Reoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024). |

| | |
|---|---|
| **RHESTR 9** | |
| **Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer Dymchwel mewn Ardal Gadwraeth**<br>(Ceisiadau am Ganiatâd Ardal Gadwraeth drwy gyfrwng adran 161 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023)<br><br>Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell<br><br>**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:** | |
| **1. Ffurflen gais safonol**<br>(Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | Cwestiynau ar y Ffurflen Gais Safonol:<br>- Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd<br>- Enw a chyfeiriad yr asiant<br>- Disgrifiad o'r cynnig<br>- Manylion cyfeiriad y safle<br>- Cynigion cysylltiedig<br>- Cyngor cyn-ymgeisio<br>- Ymgynghori â chymdogion a'r gymuned<br>- Aelod/Gweithiwr yr awdurdod<br>- Esboniad am y gwaith dymchwel arfaethedig<br>- Ymweliad â'r Safle<br>- Datganiad<br><br>Gofyniad y Rheoliadau Adeilad Rhestredig ac Ardal Gadwraeth:<br>- Tystysgrif Perchnogaeth |
| **2. Planiau a gwybodaeth berthnasol**<br>(Oni chânt eu cyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 copi) | |
| | - Planiau, lluniadau neu wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r gwaith yn y cais.<br><br>- Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth (cyfeirier at reoliad 4 o Reoliadau |

| | |
|---|---|
| | Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfyradd Llog) (Cymru) 2024). |

## RHESTR 10

**Ceisiadau am Ganiatâd o dan Orchymyn Cadw Coed**
(Ceisiadau am ganiatâd i wneud gwaith ar goed sy'n destun gorchmynion cadw coed drwy gyfrwng Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 (fel y'u diwygiwyd))

Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell

**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:**

**1. Ffurflen gais safonol**

Cwestiynau ar y Ffurflen Gais Safonol:
- Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd
- Enw a chyfeiriad yr asiant
- Lleoliad
- Perchnogaeth
- Manylion y gorchymyn cadw coed
- Nodi'r goeden/coed a disgrifiad o'r gwaith
- Rhesymau dros y gwaith
- Gwybodaeth ychwanegol
- Datganiad
- Manylion cyswllt yr ymgeisydd
- Manylion cyswllt yr asiant

**2. Planiau a gwybodaeth berthnasol**

- Plan o'r lleoliad sy'n nodi'r goeden/coed y mae'r cais yn cyfeirio ati/atynt.
- Gwybodaeth o'r fath fel sy'n ofynnol i amlinellu'r gwaith arfaethedig y gwneir cais amdano.
- Datganiad o resymau'r ymgeisydd dros wneud y cais.
- Fel y bo'n berthnasol, dylid darparu tystiolaeth briodol yn disgrifio unrhyw ddifrod strwythurol i eiddo neu mewn cysylltiad ag iechyd neu ddiogelwch y goeden.

## RHESTR 11

**Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw – Rhan 6 (Estyniadau ac Adeiladau Amaethyddol) a Rhan 7 (Gweithrediadau ac Adeiladau Coedwigaeth) o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu**

**Cyffredinol a Ganiateir) 1995**
(Ceisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol o ran lleoli, dylunio a golwg allanol adeiladau, lleoli a dull mynediad ffordd breifat, lleoli man cloddio neu ddyddodi, neu leoli a golwg tanc, drwy gyfrwng amodau Dosbarth A o Ran 6 a Dosbarth A o Ran 7 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995)

Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell.

**Noder:** Mae ymgeiswyr yn gallu defnyddio'r ffurflen gais safonol, ond nid yw hyn yn orfodol.

**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:**

**1. Rhaid cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig.**

- Rhaid cael disgrifiad ysgrifenedig o'r datblygiad arfaethedig a'r deunyddiau a ddefnyddir ynghlwm wrth y cais.

**2. Planiau**

- Plan o'r lleoliad

**3. Ffi**

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015

## RHESTR 12

**Cais am Gymeradwyaeth Ymlaen Llaw – Rhan 24 (Datblygiad gan weithredwyr codau cyfathrebu electronig) o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995**
(Ceisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol drwy gyfrwng yr amodau yn Rhan 24 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995)

Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell

**Noder:** Mae ymgeiswyr yn gallu defnyddio'r ffurflen gais safonol, ond nid yw hyn yn orfodol.

**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:**

**1. Rhaid cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig.**

| | |
|---|---|
| | - Rhaid cael disgrifiad ysgrifenedig o'r datblygiad arfaethedig ynghlwm wrth y cais. |
| **2. Planiau a gwybodaeth berthnasol** | |
| | - Plan o'r lleoliad<br><br>- Y Comisiwn Rhyngwladol dros Amddiffyn rhag Ymbelydredd nad yw'n ïoneiddio (ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys adeiladu neu osod antena at ddiben gweithredu rhwydwaith gyfathrebu electronig - cyfeirier at erthygl 9 y DMPWO).<br>- Tystiolaeth bod unrhyw bobl eraill (ac nid y datblygwr) sy'n denant neu'n berchen ar y tir wedi cael hysbysiad o'r datblygiad arfaethedig.<br><br>- Os yw'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys gosod mast o fewn 3 cilomedr o berimedr maes glanio, rhaid darparu tystiolaeth fod yr ymgeisydd wedi hysbysu'r Awdurdod Hedfan Sifil, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn neu weithredwr y maes glanio. |
| **3. Ffi** | |
| | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 |

## RHESTR 13

**Cais am Gymeradwyaeth Ymlaen Llaw – Rhan 31 (Cynnig i ddymchwel adeiladau) o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995)**

(Ceisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol drwy gyfrwng yr amodau yn Rhan 31 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995)

Caiff gofynion manwl eu pennu yn unol â'r ddeddfwriaeth neu bolisi ffynhonnell

**Noder:** Mae ymgeiswyr yn gallu defnyddio'r ffurflen gais safonol, ond nid yw hyn yn orfodol.

**Gwybodaeth Ofynnol ar gyfer Cais Dilys:**

| | |
|---|---|
| **1. Rhaid cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig.** | |
| | - Rhaid cael disgrifiad ysgrifenedig o'r datblygiad arfaethedig ynghlwm wrth y cais. |

| | |
|---|---|
| **2. Gwybodaeth berthnasol** | |
| | - Datganiad bod yr ymgeisydd wedi arddangos hysbysiad ar y safle yn unol â A.2(b)(iii) o Ran 31 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd). |
| **3. Ffi** | |
| | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 |

## 3.0 Ffurf a chynnwys cynlluniau

Er nad oes angen pob un o'r manylion penodol canlynol er mwyn i gais gael ei gofrestru fel cais dilys, byddant yn cynorthwyo awdurdod cynllunio lleol i ddeall y cais.

**Cynllun lleoliad**

- Graddfa 1:1250 neu 1:2500.
- Pwynt gogleddol, dyddiad a rhif y darlun.
- Amlinelliad o eiddo/safle'r cais gyda llinell goch.
- Tynnwch linell las o amgylch unrhyw dir arall y mae'r ymgeisydd yn berchen arno, sy'n agos at neu sy'n ffinio â safle'r cais.
- Dangos eiddo/safle'r cais mewn perthynas ag o leiaf dwy ffordd a enwir ac adeiladau amgylchynol os yn bosibl.

**Manylion y cynllun presennol**

- Graddfa, 1:200 fel arfer neu raddfa briodol er mwyn canfod y lefel ofynnol o fanylder.
- Pwynt gogleddol, dyddiad a rhif ar gynlluniau.
- Dangos yr eiddo/safle cyfan, yn cynnwys pob adeilad, gerddi, mannau agored a mannau parcio ceir.
- Unrhyw asesiadau perthnasol sydd wedi'u cynnal.

**Manylion cynllun y safle arfaethedig**

- Graddfa, 1:200 fel arfer.
- Pwynt gogleddol, dyddiad a rhif ar gynlluniau.
- Dangos lleoliad unrhyw adeilad neu estyniad newydd, mynediad i gerbydau/cerddwyr, newidiadau i lefelau, cynigion tirlunio, yn cynnwys coed i'w symud, gwaith plannu newydd, waliau a ffensys ffin newydd neu wedi'u haddasu a mannau agored newydd ag arwynebedd caled.
- Dangos y cynigion yng nghyd-destun adeiladau/yr amgylchedd cyfagos.
- Dangos drychiad a chroestoriad o'r drychiad mwyaf serth.

**Cynlluniau llawr**

- Graddfa 1:50 neu 1:100.
- Yn achos estyniad, dangoswch gynllun llawr yr adeilad presennol i ddangos y berthynas rhwng y ddau, gan ddynodi'r gwaith newydd yn glir.

- Dangos cynlluniau llawr yng nghyd-destun adeiladau cyfagos, lle bo’n briodol.
- Yn achos ceisiadau bach, gallai fod yn briodol cyfuno’r cynllun a’r cynllun llawr (oni fydd gwaith dymchwel yn cael ei wneud).
- Cynnwys cynllun to pan fydd angen, er mwyn dangos to cymhleth neu addasiad i do.

**Drychiadau**

- Graddfa 1:50 neu 1:100 (yn gyson â chynlluniau llawr) sy’n cynnwys mesuriadau.
- Dangos holl ddrychiadau adeilad newydd neu estyniad.
- Ar gyfer estyniad neu addasiad, dangos yn glir pa rai yw’r drychiadau presennol a’r drychiadau arfaethedig.
- Cynnwys manylion ymddangosiad perthnasol ac allanol.
- Dangos drychiadau yng nghyd-destun adeiladau cyfagos, lle bo’n briodol.

**Croestoriadau**

- Graddfa 1:50/1:100 (yn gyson â chynlluniau llawr), lle bo’n briodol.

Yn achos cynigion ar gyfer datblygiadau mawr neu gymhleth, gallai modelau, cynrychioliadau wedi’u cynhyrchu ar gyfrifiadur, darluniau ac agweddau tri dimensiwn fod yn ddefnyddiol iawn hefyd.